

# Gwers 45 – Saul yn cyfarfod Iesu

## Nodiadau Cefndir i'r Athro

### Actau 9:1–25

**F**el Pharisead pybyr gwelai Paul ddilynwyr Iesu fel sect beryglus ac yr oedd yn benderfynol o'i dileu cyn iddi ddirigio ffydd hanesyddol Israel. Ni allai Saul gredu y gallai un a groeshoeliwyd fod yn Feseia; dywedai'r Gyfraith 'y mae un a grogwyd ar bren dan felltith Duw' (Deut.21:33). Cyhuddid yr 'hereticiaid' o bregethu yn erbyn y Gyfraith, y Deml a thraddodiadau'r tadau. Cafodd Saul awdurdod gan yr archoffeiriad i fynd i Ddamascus i erlid disgyblion Iesu yno (Act. 8:2). Mae'r ffaith fod credinwyr yn Namsacus yn dangos pa mor effeithiol yr oedd yr Eglwys yn ledaenu'r neges. Efallai fod rhai ohonynt wedi dianc o Jerwsalem, sy'n esbonio pam yr oedd Saul mor awyddus i fynd i Ddamascus.

Ar y ffordd cafodd Saul ei hun ar lawr, wedi ei ddallu a chlywodd lais Iesu yn gofyn 'Saul, Saul, pam yr wyt yn fy erlid i?' (Act. 9:4). Darganfu Saul fod Iesu o Nasareth yn wir yn fyw, ac felly rhaid byddai iddo newid ei feddwl amdano ef a'i neges. Rhaid oedd i Pharisead hunangyfiawn edifarhau.

Priodola rhai ysgolheigion 'weledigaeth' Saul i ffit epileptig. Yn wyneb profiadau'r apostol (gweler y panel gerllaw), anodd yw credu y byddai Saul mor benderfynol a brwdfrydig dros Iesu oherwydd iddo gael ffit epileptig wrth farchogaeth tua Damascus.

Arweiniwyd Saul i'r ddinas, i stryd a elwir Stryd Union, ac ymhen tridiau cyfarfu ag Ananeias. Yr Arglwydd oedd wedi anfon Ananeias i chwilio am Saul; ar y cyfan roedd yn anfodlon iawn oherwydd gwyddai pam yr oedd Saul yn y ddinas. Ond meddai'r Arglwydd wrtho, 'Dos di: llestr dewis i mi yw hwn i ddwyn fy enw gerbron y Cenhedloedd a'u brenhinoedd, a cherbron plant Israel' (Act. 9:15). Syrthiodd rhywbeth fel cen oddi ar ei lygaid a chafodd ei olwg yn ôl. Ymhen ychydig ddyddiau gwelwyd Saul yn pregethu Iesu yn y synagogau a chyhoeddi mai Mab Duw oedd ef.

### Paul, a adwaenir hefyd fel Saul

Brodor o Darsus yn Asia. Fe'i ganwyd i deulu o Iddewon uniongred a'i addysgu yn Pharisead wrth draed Gamaliel (Act. 22:3). Daeth yn fath o gudd-swyddog crefyddol yn teithio o synagog i synagog yn chwilio am Gristnogion. Yn ogystal â bod yn Iddew roedd Paul yn ddinesydd Rhufeinig, a maes o law aeth y Pharisead yn Gristion. Ei gryfder mwyaf oedd ei ysgrifennu, a'i lythyrau i eglwysi ac unigolion oedd sylfaen athrawiaeth yr Eglwys Fore. Ef yn fwy na neb a geisiodd egluro 'r hyn a ddigwyddodd pan hoeliwyd Iesu ar y groes. Credai fod marwolaeth ac atgyfodiad Iesu yn golygu iachawdwriaeth (achubiaeth) i bawb, Iddew neu Genedl-ddyn, cyfoethog neu dlawd, caeth neu rydd, gwryw neu fenyw. Y peth pwysig oedd ffydd yn Iesu.

Teithiodd yn eang i ledaenu'r neges am Iesu, gwnaeth o leiaf dair taith genhadol drwy Asia yn pregethu yn y synagogau ac yn sefydlu eglwysi. Daeth i wrthdrawiad â'r arweinwyr Iddewig a dioddefodd yn ddirfawr – deugain llach ond un bum gwaith, ei guro â ffyn deirgwaith, ei longdryllio, ayyb (2 Cor. 11:24ym.) Arestiwyd ef a'i anfon i Rufain yn 60 O.C. Dywed traddodiad iddo gael ei groeshoelio yn Rhufain tua 65 OC.



Trawyd Paul yn ddall ar ei ffordd i Ddamascus.  
Fedri di ddod o hyd i wyth planhigyn yn cuddio yn y llun?  
Darllen y stori hon yn Actau 9:1-19.

# Gwers 45 – Paul yn cyfarfod Iesu

## Saul yn cyfarfod Iesu | Actau 9

### Beibl Gweithgaredd yr Eglwys Fore tud. ?



#### Gwers 45

Saul yn cyfarfod Iesu

#### BEIBL GWEITHGAREDD Y PLANT DAN /DROS 7 oed

Saul yn cyfarfod Iesu

#### BEIBL LLIW STORI DUW

Saul y dyn gwahanol tud 285

#### BEIBL BACH STORI DUW

Ffordd newydd o weld tud 384

#### BEIBL NEWYDD Y STORIWR

Ar y ffordd i Ddamascus tud 150

#### BEIBL LLIW Y PLANT

Taith Saul i Ddamascus tud 290

#### BEIBL NEWYDD Y PLANT

Paul yn cyfarfod Iesu tud 232

#### BEIBL BACH I BLANT

Paul yn cyfarfod Iesu tud 466

#### Y BEIBL I BLANT MEWN 365 STORIÄU

Taith i Ddamascus tud 390

#### BEIBL LLIW Y TEULU

Saul yn cyfarfod Iesu 160

### I Ddechrau ...

#### Gêm 'Ewch!'

Bydd angen tâp masgio i osod 4 llinell hir ar hyd y llawr, gyda thua 30cm rhwng pob llinell. Eglurwch fod Iesu, cyn iddo fynd yn ôl i'r nef, wedi dweud wrth ei ddisgyblion eu bod i gymryd y newyddion da amdano drwy'r byd. Yn gyntaf, roeddent i sôn wrth y bobl yn Jerwsalem, h.y. y bobl a oedd yn byw agosaf atynt. Wedyn, roedd yn rhaid mynd ychydig ymhellach – i Jwdea ac i Samaria – cyn mynd i bob man, 'i bendraw'r byd.' Eglurwch fod y llinellau ar y llawr yn cynrychioli'r pedwar lleoliad: y llinell agosaf yw 'Jerwsalem' y llinell nesaf yw 'Jwdea', y drydedd llinell yw 'Samaria' a'r llinell bellaf yw 'pendraw'r byd'. Gwahoddwch bawb i sefyll ar y llinell 'Jerwsalem' i gychwyn y gêm. Wrth i chi alw enw lleoliad arall, dylai'r plant neidio arno a gweiddi, ' Mae Iesu'n eich caru!' Cewch chwarae yn gystadleuol, gyda'r person olaf allan, neu chwaraewch am amser penodol heb unrhyw un yn 'colli.' Eglurwch y byddwn yn clywed hanes un person arbennig a aeth ar deithiau lawer yn rhannu'r newyddion da am Iesu.

#### Fy Ffrindiau

Bydd angen darn o bapur ar gyfer bob plentyn a phensiliau lliw. Gofynnwch i'r plant i dynnu llun/lluniau o'u ffrind gorau ac i ysgrifennu geiriau o amgylch y llun sy'n disgrifio'r ffrind. Trafodwch y lluniau gyda'r plant gan bwysleisio'r rhesymau dros ddewis y person hwnnw/honno fel ffrind. Esboniwch y byddwn yn clywed hanes dyn arbennig heddiw yr oedd Iesu am fod yn ffrind iddo – er, nad oedd yn berson neis iawn ar ddechrau'r hanes.

### Yr Hanes ...

Darllenwch yr hanes gan ddefnyddio Beibl Gweithgaredd y Plant neu un o'r llyfrau yn y Rhestr Adnoddau. Wedyn, defnyddiwch y syniad canlynol i atgyfnerthu a chymhwyso'r stori. Neu, defnyddiwch y syniad canlynol wrth i chi adrodd yr hanes yn eich geiriau eich hun.

### Cyfarfod â dau gymeriad (Actau 9)

Bydd angen darn mawr o bapur a phin ffelt trwchus; pensiliau lliw.

Gofynnwch i wirfoddolwr i dynnu llun o Saul ac Ananias a gofynnwch i'r plant beth y maent yn ei gofio amdanynt, gan gychwyn gyda Saul. Cewch ddefnyddio'r cwestiynau canlynol i'w sbarduno. Gyda grŵp o blant hŷn, cewch chwilio am yr atebion ym mhennod 9, a gwahodd y plant i ysgrifennu'r atebion wrth ymyl y cymeriad perthnasol mewn lliwiau gwahanol.

**Cwestiynau ar gyfer Saul:**

1. Beth oedd Saul yn bygwth ei wneud i ddilynwyr Iesu? Adnod 1
2. Beth gafodd gan yr Archoffeiriad? Adnod 1 a 2
3. Beth welodd Saul wrth ddod yn agos i Ddamascus? Adnod 3
4. Beth ddywedodd y llais wrtho? Adnod 4, 5 a 6
5. Sut cyrhaeddodd Damascus? Adnod 8
6. Pam oedd Saul angen rhywun i'w arwain yno? Adnod 8

**Cwestiynau ar gyfer Ananias:**

1. Ble oedd Ananias yn byw? Adnod 10
2. Beth ddywedodd yr Arglwydd (Iesu) wrtho? Adnod 11 a 12
3. Beth oedd ymateb cyntaf Ananias? Adnod 13, 14
4. Pam oedd yr Arglwydd eisiau Ananias i helpu Saul? Adnod 15, 16
5. Beth wnaeth Ananias ar ôl dod o hyd i Saul? Adnod 17
6. Beth ddywedodd Ananias wrth Saul?

**Cymhwys**

Bydd angen amrywiaeth o eitemau sy'n cael eu newid o fod yn un peth i fod yn rhywbeth gwahanol, e.e. oren a charon o sudd oren; darn o bren a phensel/darn o bapur; cnu gwlan a siwmpwr wlanog. Hefyd, bydd angen sgarff a Beiblau.

Trowch i'r hanes yn Actau 9 a darllenwch frawddeg gyntaf adnod 18. Esboniwch mai dyma beth a ddigwyddodd nesaf yn yr hanes. Eglurwch ystyr y gair 'cen' gan roi sgarff dros lygaid un o'r plant – a'i adael yno.

Cyn i Saul cyfarfod â Iesu sut fath o berson oedd ef?

Doedd Saul ddim wedi deall pwy oedd Iesu go iawn. Doedd e ddim yn credu bod Iesu'n fab Duw, a doedd e ddim yn deall bod Iesu wedi marw ar y groes i faddau ein pechodau. Ond, ar ôl cyfarfod â Iesu roedd e'n deall yn iawn. Tynnwch y sgarff i ffwrdd – roedd Saul yn cael ei olwg yn ôl a chafodd ddeall bod Iesu'n ei garu ef hefyd. Cymerodd Iesu'r teimladau o gasineb oedd gan Saul tuag at y Cristnogion ymaith – nawr roedd Saul yn un o ffrindiau Iesu hefyd!

Darllenwch yr ail ran o adnod 18. Yn amser Iesu roedd pobl yn cael eu bedyddio i ddangos eu bod yn sori am eu pechod, y pethau drwg yr oeddent yn meddwl ac yn dweud ac yn gwneud. Tybed pam oedd Saul eisiau cael ei fedyddio felly?

Dangoswch yr eitemau i'r plant gan ofyn a ydynt yn gallu dyfalu beth yw'r cysylltiad rhyngddynt.

Esboniwch fod Saul wedi cael ei newid tu mewn, yn ei galon, trwy gyfarfod â Iesu ar y ffordd i Ddamascus. Os bydd rhywun yn gofyn i Iesu i faddau iddynt ac yn ei wahodd i fyw i'w ch/galon, bydd Iesu'n eu newid nhw hefyd – nid ar y tu allan, ond ar y tu mewn. Mae'r bobl yma'n cael eu galw yn Gristnogion – pobl sydd yn caru Iesu Grist ac sydd eisiau byw i'w blesio.

Cafodd enw Saul ei newid i fod yn 'Paul' – yn arwydd o'r newid yr oedd Iesu wedi gwneud yn ei galon.

**Adnod i'w dysgu – Ar ffurf cân**

'Os yw dyn yng Nghrist y mae'n greadigaeth newydd. Y mae'r hen un heibio, y mae'r newydd wedi dod.' (2 Corinthiaid 5: 17)

Mae adnod wedi ei rhoi i gerddoriaeth, ac mae i'w gweld yn y llyfr 'Y Cyntaf a'r Olaf.'

**Adnoddau Ychwanegol****Crefft**

Llyfr Crefftau Stori Duw i blant dan 11 oed *Saul yn cyfarfod â Iesu* tud.148

**Gwerslyfrau Golau ar y Gair**

Paul yn cyfarfod Iesu

**Taflenni gwefan amserbeibl.org**

Cyfres A – Cristnogion Cynnar

**Cyfres DVD Stori Duw**

Stori 50: Paul yn Namascus

**Cyfres Powerpoints Beibl Bach i Blant**

Stori 60: Yr Helpwr Arbennig

**Cwis a Chwilair**

Llyfr Cwis Cynta i Ateb tud 356

**Llyfrau Stori**

Pysgodyn Bach: Paul

